



Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Gwasanaethau Priffyrdd

Gorfodaeth Parcio Sifil

Cwestiynau Cyffredin



1. Sut caiff y gwaith gorfodi ei wneud?

Bydd y Swyddogion Gorfodaeth Sifil (SGS) newydd yn patrolio bob rhan o Sir y Fflint lle mae cyfyngiadau parcio sy'n cael eu cwmpasu gan Orchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) mewn grym. Bydd hyn yn cynnwys llinellau melyn dwbl a sengl, ardaloedd llwytho a dadlwytho, lleoedd parcio i bobl anabl, ardaloedd disgwyl cyfyngedig, safleoedd tacsis ac unrhyw ardaloedd parcio oddi ar y stryd a reolir gan y Cyngor Sir ac ati.

Bydd swyddogion gorfodaeth yn rhoi Rhybudd Tâl Cosb i yrwyr sydd, wrth barcio, wedi torri unrhyw reoliadau sydd ar y pryd mewn grym. Os byddwch yn parcio'n anghyfreithlon neu yn y lle anghywir, ar rwydwaith y priffyrdd neu mewn maes parcio sy'n cael ei redeg gan y Cyngor, efallai y bydd Rhybudd Tâl Cosb ar ffenestr eich cerbyd pan ddewch yn ôl.

2. Pryd ac ar ba ffyrdd fydd Gorfodaeth Parcio Sifil yn digwydd?

Bydd gorfodaeth Awdurdodau Lleol yn cwmpasu pob ffordd fabwysiedig a meysydd parcio'r Cyngor yn ardal Sir y Fflint ac eithrio ffyrdd yr A55, A550 a'r ffordd ddeuol sy'n rhan o gefnffordd yr A494. Bydd gorfodaeth mewn grym ar unrhyw ddiwrnod ar unrhyw amser y mae cyfyngiad parcio mewn grym. Caiff amledd y patrôl ei bennu i ateb gofynion ac amgylchiadau lleol.

3. A fydd yr Heddlu'n gyfrifol am unrhyw orfodaeth parcio?

Ni fydd yr heddlu'n gyfrifol am orfodi unrhyw gyfyngiadau llinellau melyn. Bydd yr heddlu'n parhau i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig am y troseddau canlynol:

- » Holl droseddau traffig sy'n symud.
- » Pob achos o rwystro traffig sy'n symud megis cyffyrdd blychau melyn ac ati.
- » Parcio peryglus.
- » Unrhyw droseddau parcio ardystiedig.
- » Parcio ar lwybrau troed lle nad oes llinellau melyn.
- » Gyrru dros lwybrau troed.
- » Os oes materion diogelwch neu faterion plismona traffig eraill yn gysylltiedig.

4. Sut allaf osgoi cael HTC?

Peidiwch â thorri rheoliadau parcio a chymerwch sylw o bob arwydd a marciau wrth barcio.

Eich cyfrifoldeb chi yw parcio eich cerbyd yn gywir. Dyma rai enghreifftiau o lefydd lle na ddylech barcio. Os nad ydych yn sir, edrychwch ar yr arwydd sy'n rhoi gwybodaeth am y man lle rydych yn parcio

- » Lle mae cyfyngiadau aros a llwytho yn weithredol ar y pryd.
- » Mewn man parcio sydd wedi ei neilltuo (e.e. ar gyfer pobl sydd â bathodyn glas), heb ddangos bathodyn dilys yn y modd cywir.
- » Mewn safle bws sydd wedi'i farcio yn ystod adegau pan mae parcio wedi'i wahardd.
- » Ar linellau igam ogam lle gwaherddir parcio y tu allan i ysgol neu ger croesfan i gerddwyr.
- » Ar balmant neu lain glas y tu ôl i waharddiad parcio sy'n weithredol ar y pryd.
- » Mewn unrhyw fan parcio lle byddech yn torri rheoliadau'r maes parcio.
- » Am fwy o amser nag a ganiateir os oes cyfyngiad aros neu os dychwelwch i'r lle o fewn yr amser sy'n cael ei nodi.

5. A yw llwytho a dadlwytho nwyddau yn cael ei ganiatáu?

Ydy fel arfer, wrth wneud gweithgareddau tebyg, oni bai fod cyfyngiadau llwytho neu farciau igam ogam hefyd ar y ffordd.

6. A all cerbydau aros i ollwng teithwyr?

Gallant, cyn belled â nad ydynt yn gwneud hynny ar farciau cadw'n glir wrth ysgol neu farciau igam ogam wrth groesfan i gerddwyr.

7. Beth fydd cost y ddirwy os caf Hysbysiad Tâl Cosb?

Bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb naill ai'n £50 neu'n £70 yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r dramgwydd. Mae lefelau HTC a'r tramgwyddau a ystyrir yn fwy difrifol yn cael eu gosod yn genedlaethol ac nid gan y Cyngor. Os talwch yr HTC cyn pen 14 diwrnod ar ôl iddo gael ei roi i chi, caiff y gost ei hanneru (i £25 neu £35). Gall hefyd gynyddu o 50% (i £75 neu £105) os na chaiff ei cyn pen 28 diwrnod ar ôl i Hysbysiad i Berchennog a Thystysgrif Tâl gael eu rhoi. Bydd manylion am sut i dalu Rhybudd Tâl Cosb i'w gweld ar gefn y Rhybudd.

8. Beth sy'n cael ei ystyried i fod yn dramgwydd fwy difrifol?

Yn gyffredinol caiff parcio ar linellau dwbl neu mewn lle parcio heb arddangos hawlen briodol (e.e. unigolyn anabl) ei hystyried yn dramgwydd mwy difrifol. Byddai parcio mewn lleoedd parcio a ganiateir (e.e. aros dros yr amser a ganiateir mewn lle parcio) ei ystyried yn dramgwydd llai difrifol.

9. Beth allaf ei wneud os wyf yn anghytuno â'r ffaith fod HTC wedi'i roi i mi?

Gallwch herio'r HTC drwy gysylltu â thîm Gwasanaethau Parcio'r Cyngor yn gyntaf. Rhaid i chi wneud hynny cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddwyd yr HTC i chi. Bydd Gwasanaethau Parcio'r Cyngor yn edrych ar eich achos ac yn dod i benderfyniad trwy ddefnyddio polisi presennol y Cyngor. Os caiff eich apêl ei gynnal, caiff yr HTC ei ganslo ac fe gewch wybod hynny. Fodd bynnag, os na chaff ei gynnal cewch eich hysbysu a bydd gofyn i chi dalu'r HTC ar y gyfradd briodol. Os heriwch y HTC cyn pen 14 diwrnod caiff y cyfnod gostyngiad 50% ei ymetsyn nes i chi gael eich hysbysu o'r penderfyniad.

10. Beth os wyf yn dal i anghytuno â phenderfyniad y Cyngor?

Os na fyddwch wedi talu'r HTC, caiff "Hysbysiad i Berchennog" (HiB) ei roi i chi a bydd gofyn i chi naill ai dalu'r ffi neu gyflwyno sylwadau pellach i'r Cyngor cyn pen 28 diwrnod arall. Rhaid i'r Cyngor ystyried eich rhesymau eto ac os yw'n dal i wrthod eich sylwadau, cewch hysbysiad gwrthod a bydd y Cyngor yn anfon eich sylwadau ymlaen at y Tribiwnlys Cosbau Traffig i'w hystyried.

11. Beth yw'r Tribiwnlys Cosbau Traffig?

Corff annibynnol cenedlaethol ydyw a sefydlwyd yn benodol i wrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysadau Tâl Cosb. Mae holl ddyfarnwyr y Tribiwnlys yn weithwyr cyfreithiol proffesiynol cymwys a fydd yn edrych ar holl ffeithiau'r achos ac yn penderfynu p'un a ddylai'r HTC gael ei dalu ai peidio. Gall bob ochr gyflwyno ei achos (fel arfer heb fynychu) er hynny mae gennych hawl i fynychu gwrandawriad apêl. Mae penderfyniad y dyfarnwr yn derfynol.

12. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu'r HTC ar ôl i sylwadau gael eu gwrthod?

Caiff y HTC ei gofrestru mewn Llys Sirol arbennig yn Northampton pan fydd ffioedd gweinyddol y llys yn cael eu hychwanegu (£7.00 yr achos ar hyn o bryd). Bydd gwerth llawn yr HTC yn cynyddu o 50% a bydd hysbysiad o gofrestru dyled yn cael ei hanfon atoch a rhoddir 21 diwrnod arall i chi dalu.

13. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu wedyn?

Ar ôl 21 diwrnod, gall y Cyngor gofrestru'r warant a chyfarwyddo beiliod ardystiedig i gasglu'r HTC sydd heb ei dalu neu i atafaelu nwyddau sy'n cyfateb i werth yr HTC ac unrhyw swm ychwanegol a godir gan y cwmni beiliod.

14. Beth allaf ei wneud os na dderbynais Hysbysiad i Berchennog (HiB)

Gallwch anfon datganiad (sef 'datganiad tyst') at y Llys Sirol yn Northampton a fydd yn ei anfon at y Cyngor. Mae'n debyg y bydd y Cyngor yn anfon copi o'r HiB atoch a bydd y broses yn aildechrau o'r pwynt hwnnw.

15. Beth allaf ei wneud os cyflwynais sylwadau ond heb dderbyn hysbysiad gwrthod neu os apeliais i'r gwasanaeth dyfarnu Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Yn y ddau achos gallwch wneud datganiad tyst i Lys Sirol Northampton a fydd yn ei anfon at y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor, yn yr amgylchiadau hyn, gyfeirio'r achos at y gwasanaeth dyfarnu.

16. Sut fydd y newidiadau'n effeithio ar ddeiliaid bathodynau glas?

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau. Gall deiliaid bathodynau barhau i barcio ar linellau melyn dwbl neu sengl am uchafswm o dair awr, cyn belled a nad ydynt yn creu rhwystr, oni bai fod llwytho neu ddadlwytho'n cael ei wahardd. Rhaid arddangos y bathodyn glas ynghyd â'r disg parcio yn dangos yr amser cyrraedd. Os oes cyfyngu ar aros, nid oes unrhyw gyfyngiad amser cyn belled a bo'r bathodyn yn cael ei arddangos.

17. A all cerbydau barcio ar linellau melyn wrth wneud gwaith adeiladu, symud nwyddau ac ati?

Mewn rhai amgylchiadau gellir cael goddefeb gan y Cyngor ar gyfer amseroedd penodol i ganiatáu gweithgareddau megis gwaith adeiladu a symud nwyddau.

18. A fydd HTC yn cael ei roi am barcio ar ochr ffordd neu lwybr troed?

Gellir rhoi hysbysiadau i gerbydau sy'n parcio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar ochr ffordd neu lwybr troed ger llinellau melyn. Os yw cerbyd nwyddau wedi parcio ar ochr ffordd neu lwybr troed gellir rhoi HTC hyd yn oed os nad oes llinellau melyn yno. Mae cerbydau sy'n parcio ar lwybrau troed yn creu rhwystrau i gerddwyr, yn arbennig y rheiny ag anabledd ac yn difrodi'r llwybr. Mae gan yr Heddlu bwerau i roi Hysbysiad Cosb Benodedig yn yr amgylchiadau hyn.

19. A allaf wneud cais am symud neu newid marciau presennol?

Mae cyfyngiadau fel arfer mewn lle er mwyn rheoli traffig neu am resymau diogelwch ond ambell waith efallai na fydd eu hangen bellach neu efallai na fyddant yn briodol. Dylid anfon pob cais am newididau i Is-adran Traffig y Cyngor yn Neuadd y Sir. Ffoniwch 01352 704634.

20. Ble gallaf gael gwybodaeth bellach?

Ar gyfer ymholiadau ynghylch Rhybudd Tâl Cosb, cysylltwch â: Partneriaeth Prosesu Taliadau Cosb Cymru, Blwch SP 273, Y Rhyl LL19 9EJ. Ffôn: 0845 6056556 Gwefan: www.wppp.org.uk

Ar gyfer pob gwasanaeth parcio arall, cysylltwch â: Gwasanaeth Parcio Cyngor Sir y Fflint, Ffôn: 01352 704637 E-bost: gwasanaethauparcio@siryfflint.gov.uk

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu ar fformat arall, fel print bras, braille neu ar dâp sain, ffoniwch yr 01352 704637